

55)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader Medi 20fed 2017—20/09/17-- 8pm

---

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Val Davies,Glyn Jones,Haulwen Lewis,Eirian Jones,

Annette Davies,Yvonne Griffiths,Melfyn Evans,Dylan Davies,Barbara Cobain,Martin Griffiths.

Clerc:Anita Evans. Ymddiheuriadau:C.Sir L.Evans.Ymwelwyr/Visitors:2

---

1)Croesawodd Eirian Jones(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod.Derbyniwyd ymddiheuriadau/chairman welcomed all to the meeting,and received apologies.

2)Dim datganiadau gan y Cynghorwyr/no declaration of interest by Councillors.

3)Dim aelod o'r Heddlu'n bresennol/no Police present.

4)Cofnodion mis Gorffennaf—cafwyd yn gywir/July minutes found to be correct(prop.B.Cobain;sec.A.Davies)

5)Materion yn codi/matters arising:

a)Mae'n fwriad gan y Cyngor yma osod enwau ar strydoedd Heol y Felin,Heol y Castell,a Rhiw Cwm Gof—enwau mae rhai o drigolion Pencader yn ddefnyddio o hyd,a gresyn eu colli.Yn y gorffennol,daeth y C.Sir L.Evans â chopi o e-bost dderbyniodd oddiwrth N.Tommasson,(Gwasanaethau Cynllunio-Adran yr Amgylchedd)yn esbonio'r gost o £150.00 am osod yr arwydd,ac yn dweud ei bod yn fodlon dileu'r ffî o £25 i bob tŷ yn y stryd(Heol y Felin yn y cyswllt yma).Cynnigiodd M.Evans ein bod yn gofyn yn garedig i'r C.Sir ddileu'r gost i bob tŷ ar y ddwy stryd arall—sef Heol y Castell,a Rhiw Cwm Gof.Roedd pawb yn gytun.Bydd y Clerc yn anfon llythyr at yr Adran berthnasol.This Council is hoping to re-establish three street names in Pencader,and succeed in placing street signs.They are:Heol y Felin(Mill St)from Cae'ronnen to Glanawmor Isa Farm;Heol y Castell(Castle Rd.)from Arddol to Ash Vale;Rhiw Cwm Gof from Ashvale to the top of the hill.

b)Diffibrillators—mae eisiau i ni gwrdd ag aelodau o Sefydliad y Merched,er mwyn symud ymlaen i lanw'r ffurflen addas oddiwrth elusen Cariad.Penderfynwyd ar Hydref 2il am 8yh.It was decided to invite members of the WI to a meeting on Oct.2<sup>nd</sup> to discuss the application from the charity Cariad.

c)Garej Highway—problem ceir wedi parcio ym mhobman—darllenwyd llythyr oddiwrth John McEvoy yn dilyn y Cyngor Sir yn gwneud arolwg o'r ceir wedi parcio,a hynny ar wahanol amseroedd dros 10 ymweliad.Cytunodd y Cynghorwyr i gefnogi'r C.Sir iddynt anfon y wybodaeth ymlaen i'r DVSA.Following numerous complaints,over many months regarding parked cars in the vicinity of Highway Garage in Pontweli,the County Council have sent us the findings of their survey,and Councillors decided to support the C.C.in their intention to refer the survey results to the Driver Vehicle Standards Agency.

ch)Sbwriel Fferm Banc—yn dilyn cwyn dderbyniodd y Cyngor yma,mae'r sbwriel yn cael ei gasglu o ben yr hewl yn gyson nawr.Fodd bynnag,gan fod y lori yn troi rownd ar ben hewl y fferm,mae'r tarmac mewn stâd gwael,ac mae eisiau hysbysu Tony Williams.The Clerk will inform Tony Williams re the bad state of the tarmac at the end of the farm lane where the refuse lorry reverses.

d)Cyngor Sir wedi bod yn trwsio'r tarmac ym Mhencader,ac wedi addo gwneud y darn ar y ffordd i Dryslwyn/Tony Williams has informed that the County Council have been patching the tarmac in Pencader.

56) 6)Cyfrifon/finances:

Cafwyd yr adroddiad yn gywir/statement found to be correct:prop.A.Davies;sec.Y.Griffiths.Bilie i'w talu/bills to be paid:cyflogau a HMRC am Awst/wages and tax for August:£1,697.61;September:£1,422.46;Haydn Jones:ardal bicnic/trashing picnic area:£90.00;V.Davies-costau teithio/travelling:£14.13;Emyr Jones Rhos welding gate for Play Corner--£65.76;U.LL.Cymru 2 le yn y Gynhadledd Flynnyddol/AGM (2 members)£160.00.SCL-web-site security£36.00;J.Clulow—conversion of web-site:£60.00;Clerc (costau,a hanner rent y ffon 2015-16 a 2016—17) £236.10.Bilie i'w talu/bills will be paid-prop.A.Davies;sec.Y.Griffiths.

Derbyniadau/Receipts:Praecept:£15,000;llôg y Banc/interest:£4.71;claddu/burial fees:£200.00

---

7)Cynllunio/Planning: cais llawn i Blaenblodau(sied)wedi ei drafod mewn cais am-linellol yng nghyfarfod Gorffennaf/full planning for agricultural shed at Blaenblodau—was discussed at July meeting.No objection.

---

8)Gohebiaeth/correspondence:C.Sir Gâr/Carm.County Council:

a)Cyfleusterau Alltwalis:llythyr oddiwrth Rhys Davies yn rhestru'r gwaith wedi ei wneud gan y C.Sir ar y safle,ac yn ceisio ateb ein pryderon;maent yn ceisio cael ateb i'r lleithder yn nholedau'r dynion.Bydd rhaid i'r Cyngor yma aros am ateb,ac hefyd gofyn pa amser o'r dydd mae'r safle'n cael ei glanhau,a phryd maent yn cael eu cloi dros nos.The County Council have sent a letter trying to solve our worries re Alltwalis Convenience.We will now await their progress in solving the dampness in the male toilets.We have a further 2 questions;what time of day is the site cleaned;when are they locked overnight.

b)Jason Lawday(llwybrau)—wedi anfon gwybodaeth am ddargyfeirio llwybr cerdded yng nghyffiniau Fferm Wynt Gorllewin Brechfa.Mae'r Clerc wedi hysbysebu'r mapiau yn yr hysbysfyrdau.Information has been received re the temporary re-location of a footpath in the vicinity of the Brechfa Forest West Wind Farm—maps have been placed in the noticeboards.

ch)Gwybodaeth yn dilyn y cwrs Côt Ymddygiad diweddar/follow up notes on the latest Code of Conduct training.

Eraill/other: d)E-bost oddiwrth J.Mathews yn nodi ei dymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor yma.Roedd hi'n gorffen ar ddyddiad yr e-bost.I ddilyn roedd V.Davies wedi anfon e-bost yn gofyn am eiriad y neges,a oedd yn defnyddio'r rheswm yn ôl J.Mathews ei bod yn cael ei "heithrio o is-bwyllgorau".Ceisiodd y cadeirydd roi esboniad:roedd yr is-bwyllgor gwe-fan wedi cwrdd ar Orffennaf 3ydd i gael hyfforddiant sut i roi gwybodaeth ar y we-fan.Mae hwn yn fater diogelwch,ac mae'r is-bwyllgor yn cael ei dewis yn y Cyfarfod Blynnyddol.Yr ail gyfarfod oedd i'r is-bwyllgor cynllunio,ac eto mae aelodau'n cael eu dewis yn flynyddol.Mae'n rhaid ufuddhau i reolau'r Cyngor,a'r Rheolau Sefydlog.An e-mail was received from J.Mathews wishing to resign as member on August 16<sup>th</sup>,and took immediate effect.A further e-mail was received from V.Davies requesting an explanation on the wording of the e-mail "on the grounds that I am being excluded from council sub-committee meetings".The Chairman gave his explanation.All sub-committees are appointed/reviewed in the AGM.The web-site sub-committee met for training with J.Clulow,in order to submit information on the site.It's also important to ensure the safety of the site.The second sub-committee to meet this term was for planning.It was stressed that we have to adhere to Standing Orders,and all sub-committee members are chosen/reviewed at the AGM.

dd)Cymdeithas yr Iaith—llyfrgell Caerfyrddin –30/09 gweithdai trafod materion perthnasol,a thynged yr iaith.

e)Grant Thornton-Audit wedi ei gwblhau/Audit completed.

57) 8) Gohebiaeth parhâd/correspondence contd.

f) Love my Wales—gwahoddiad i'r Cynghorwyr fynd i Gapel Trodyrhiw Alltwalis i weld y gwaith sy wedi ei gwblhau mor belled/invitation to visit Alltwalis Chapel to see progress with renovation.

ff) Canolfan Ceufadau, Pontweli—gwahoddiad i aelodau'r Cyngor i benwythnos pencampwyr ceufadau ar Hydref 7/8fed/Llandysul Canoe Centre—an invitation and promoting weekend of 7/8<sup>th</sup> of October when Llandysul are hosting canoe championships.

g) U.LL.Cymru—pwyllgor ardal a chofnodion/O.V.Wales—next meeting, and minutes.

ng) Comisiwn Ffiniau—cyflwyniad yn Neuadd y Sir Caerfyrddin Medi 20fed am 5.30yp. Doedd neb yn gallu mynd. Presentation of the review of electoral arrangements for Carm. 20/09 at 5.30pm. No-one could attend.

---

9) U.F.Arall/AOB: (info.only)

a) D. Davies—problem baw cŵn o'r Siop Sglodion i Siop y Sgwâr, Pencader. Plant ifanc ar y stryd, ar bwys Ysgol Cae'r Felin hyd at 1 y bore—bydd rhaid cysylltu â'r Heddlu. Pencader—problems with dog fouling, and young children out until 1am outside the School.

b) V. Davies—problem y dŵr yn rhedeg lawr o Benrhiw heb ei ddatrys; Eithinog—y twll ar yr hewl—tarmac wedi ail ddechrau codi. Problems with flood water running down the road not solved/patching the hole near Eithinog—failed.

c) hewl Glantweli Fach yn dioddef yn ofnadw gyda llif, ac mae twll anferth wedi ymddangos ar bwys Pontfaen sy'n beryglus iawn. Mae'r arwydd Dolgran o Bencader heb ei symud o hyd. Road past Glantweli Fach is very prone to flooding, and a very large hole has appeared near Pontfaen. The road sign for Dolgran is still hampering visibility.

ch) A. Davies—arwydd 30mya yn dal ar ei orwedd ochr draw Meurllyn; golau fflachio ar bwys cyffordd Dolgran ddim yn gweithio; gyrrwyr yn cael trafferth mawr i ddeall y system draffig nes ymlaen na'r ysgol ym Mhencader; am hysbysebu noson fingo ar Hydref 13eg am 7 yn y Pafiliwn (Pida'n trefnu) a bydd Sion Côrn yn Ysgol Cae'r Felin ar Dachwedd 25ain (Ysgol Feithrin yn trefnu). The 30mph road sign opposite Meurllyn, Pencader is still on the ground (this has been reported many times); flashing speed sign by the Dolgran junction not working; drivers are having difficulty understanding the filter arrow system by Bronllys; dates to note: —PIDA are organising a bingo evening at the Pavillion on 13/10/17 at 7pm; Nursery Group are inviting Father Christmas to the school Sat. 25/11.

d) B. Cobain—yn gofyn am y posibilrwydd o gael croesfan sebra o flaen Tafarn Farmers ym Mhencader. Does dim gwasanaeth lolipop ar gael nawr, a does dim palmant o flaen Frongelli. Mae'r safle'n brysur iawn yn enwedig yn y prynhawn pan mae plant ysgol yn dod oddiar y bwsys. Asks if it is possible to have a zebra crossing near Farmers in Pencader. The lollipop service has finished, there is no pavement in front of Frongelli, and the site is very busy particularly at the end of the school day—pupils from secondary schools come off the buses.

dd) M. Evans—mae gor dyfiant coed ar y ffordd lan heibio'r Bee Hive allan i hewl Talog yn amharu ar yrrwyr/problems for drivers on the road leading from the Bee Hive to meet Talog road with overhanging trees.

e) Y. Griffiths—am dynnu sylw cyflymder traffig drwy Gwyddgrug/high speed traffic through Gwyddgrug.

f) Clerc---wedi cael cais am gysgodfan bws wrth y Capel yn New Inn—rhaid ysgrifennu llythyr/a request for a bus shelter near New Inn Chapel has been received over the telephone. A letter needs to be sent to this Council.

ff) E. Jones --does dim wedi ei wneud am y palmant/the broken kerbstone by the shop in Pencader not repaired.

Gorffennwyd/meeting finished: 9.30pm.

58) Cyfarfod gyda aelodau Sefydliad y Merched, Pencader-nos Lun 2/10/meeting with members of Pencader W.I.

Presennol/present:

E.Jones(chairman),V.Davies,H.Lewis,G.Jones,A.Davies,B.Cobain,Y.Griffiths.WI:M.Pratt,M.Thomason,A.Morris.

Ymddiheuriadau/appologies:D.Davies,M.Griffiths,M.Evans.

Cyfarfod oedd hwn i lanw ffurflen helaeth i elusen Cariad yn y gobaith o dderbyn cyllid i osod defibrillator ym mh ob pentref yn ein Plwyf.Mae'r C.Cymuned yn cydweithio gyda Sefydliad y Merched i sicrhau grant oddiwrth yr elusen yma.Fe lanwyd y ffurflen ar y wefan,gydag arweiniad E.Jones.Bydd y cais mewn erbyn Ionawr 1af 2018.

This was a meeting to fill a form for the charity Cariad who support the siting of defibrillators in communities.This C.Council are working with the Pencader W.I.in this application.The form was filled on the computer,under the leadership of E.Jones.The application will be submitted ready for the Jan1st 2018 deadline.

Diolchwyd i'r aelodau ac i'r dair o S.y Merched/members were thanked for attending,and also the 3 ladies from the W.I.

---